

# Pecyn Dogfennau



Mark James LLM, DPA, DCA  
Prif Weithredwr,  
Chief Executive,  
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP  
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

**DYDD MERCHER, 4 GORFFENAF 2018**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R  
**CYNGOR SIR A GYNHELIR YN SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN**  
AM **9.30 AM**, **DYDD MERCHER, 11<sup>EG</sup> GORFFENAF, 2018** ER MWYN  
CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM.

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**



**AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA**

<b>Swyddog Democraidd:</b>	<b>Janine Owen</b>
<b>Ffôn (llinell uniongyrchol):</b>	<b>01267 224030</b>
<b>E-bost:</b>	<b>JanineOwen@sirgar.gov.uk</b>
<b>Cyf:</b>	<b>AD016-001</b>



**EICH CYNGOR arleinamdani**  
[www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)  
**YOUR COUNCIL doitonline**  
[www.carmarthenshire.gov.wales](http://www.carmarthenshire.gov.wales)

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol

# AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.
3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.
4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR YR 13<sup>EG</sup> MEHEFIN 2018 5 - 20
5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).
6. CWESTIYNAU GAN AELODAU:-

**6.1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD TINA HIGGINS I'R CYNGHORYDD PHILIP HUGHES, YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DDIOGELU'R CYHOEDD**

“A allai'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros ddiogelu'r cyhoedd roi datganiad ynghylch y camau gweithredu y mae'r Cyngor wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r pla o glêr yn Llanelli, gan gynnwys pryd gafodd y Cyngor wybod am y broblem i gychwyn, pryd wnaeth ymateb, a manylion unrhyw gyngor arbenigol a gafwyd ynghylch y broblem?”

**6.2 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD BILL THOMAS I'R CYNGHORYDD GLYNOG DAVIES, YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG Y PHLANT**

“Dros ddwy flynedd, talodd darparwr athrawon cyflenwi mwyaf Cymru bron i £1 miliwn i ddau gyfarwyddwr. Eto, mae cyflogau ac amodau athrawon cyflenwi gryn dipyn yn is nag ar gyfer staff parhaol. O ganlyniad i'r annhegwch hwn cynhelir gwrthdystiad yng Nghaerdydd ar y 7<sup>fed</sup> o Orffennaf.

Beth mae'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant yn ei wneud i drefnu bod athrawon cyflenwi yn cael eu comisiynu a'u cyflogi trwy drefniadau eraill, gan gynnwys eu cyflogi'n uniongyrchol?”

7. TAITH PRYDAIN 2018 21 - 24
8. YSTYRIED Y RHYBUDD O GYNNIG CANLYNOL:-

**8.1 CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ANDRE MCPHERSON**

“Gofynnaf i'r Cyngor hwn gadarnhau'r cynnig hwn bod bagiau glas ar gyfer ailgylchu'n cael eu gwneud yn fwy trwchus a chryf.” Byddai hyn yn fwy cost effeithiol ac yn fwy addas i'r diben.”

9. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-
- 9.1 CYNLLUN RHEOLI ASED AU PRIFFYRDD 25 - 76
- 9.2 ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDD DARBODAETH 2017-2018 77 - 94
10. YSTYRIED ARGYMHELLAD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD O RAN Y MATER CANLYNOL:-
- 10.1 GWEITHIO'N DDI-BAPUR 95 - 102
11. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWDYD AR Y 4 MEHEFIN 2018 103 - 116
12. AELODAETH PWYLLGORAU:
- 12.1 NODI BOD Y GRWP LLAFUR WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD FOZIA AKHTAR I GYMERYD LLE'R CYNGHORYDD ANDRE MCPHERSON AR Y PWYLLGOR TRWYDDEDU
13. RHOI RHYDDFRANT SIR GAERFYRDDIN I MR DAVID TOM DAVIES OBE, BERLLAN FACH, DRYSLWYN, CAERYFYRDDIN [BYDD YR EITEM YMA YN CAEL EI GYMRYD AM 11:30 A.M.]
14. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)
- 14.1 PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED - 14 MAWRTH, 2018
- 14.2 PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED - 4 MAI, 2018
- 14.3 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU - 11 MAI, 2018
- 14.4 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT - 14 MAI, 2018
- 14.5 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 15 MAI, 2018
- 14.6 CYFARFOD AR Y CYD Y PWYLLGORAU CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD & GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD - 21 MAI, 2018
- 14.7 PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD - 21 MAI, 2018
- 14.8 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 24 MAI, 2018
- 14.9 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 31 MAI, 2018
- 14.10 PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIADD - 11 MEHEFIN, 2018
- 14.11 PWYLLGOR SAFONAU - 15 MEHEFIN, 2018

DS: Mae adroddiadau yn cael eu hargraffu mewn du a gwyn yn unig er mwyn arbed costau. Fodd bynnag mae pob adroddiad ar gael ar-lein fel y gall aelodau o'r Pwyllgor / Cyngor Sir a'r cyhoedd weld lluniau/graffiau mewn lliw.

## DYDD MERCHER, 13 MEHEFIN 2018

**YN BRESENNOL:** Cyngorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

S.M. Allen	L.R. Bowen	K.V. Broom	C.A. Campbell
D.M. Cundy	S.A. Curry	C.A. Davies	T.A.J. Davies
G. Davies	H.L. Davies	I.W. Davies	J.A. Davies
S.L. Davies	W.R.A. Davies	E. Dole	J.S. Edmunds
P.M. Edwards	H.A.L. Evans	L.D. Evans	R.E. Evans
W.T. Evans	A.L. Fox	S.J.G. Gilasbey	C.J. Harris
P. Hughes-Griffiths	T.M. Higgins	J.K. Howell	P.M. Hughes
A. James	J.D. James	R. James	D.M. Jenkins
J.P. Jenkins	G.H. John	C. Jones	B.W. Jones
D. Jones	G.R. Jones	H.I. Jones	A. Lenny
M.J.A. Lewis	K. Lloyd	K. Madge	S. Matthews
A.S.J. McPherson	E. Morgan	A.G. Morgan	D. Nicholas
B.D.J. Phillips	J.S. Phillips	D. Price	J.G. Prosser
B.A.L. Roberts	E.M.J.G. Schiavone	H.B. Shepardson	A.D.T. Speake
L.M. Stephens	B. Thomas	D. Thomas	E.G. Thomas
G.B. Thomas	J. Tremlett	A.Vaughan Owen	D.T. Williams
D.E. Williams	J.E. Williams		

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

M. James, Prif Weithredwr  
 J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau  
 C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol  
 Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd  
 G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant  
 W. Walters, Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi  
 L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith  
 P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)  
 H. Morgan, Rhelwr Datblygu Economaidd  
 L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio  
 R Llewellyn, Performance, Governance and Policy Officer  
 K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

**Siambwr, Neuadd y Sir - 10.00 am - 1.35 pm**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C. Evans, D. Harries, J. Jones, S. Najmi a G. Thomas

**2. DATGANIADAU O FUDDIANAU PERSONOL.**

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
M.J.A. Lewis	8.1 – Y Fersiwn Ddrafft o'r Canllawiau	Mae ganddi dyrbinau gwynt ar ei thir

	Cynllunio Atodol – Ynni Gwynt ac Ynni'r Haul – Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin	
M.J.A. Lewis	8.2 – Newid enwau Cyngor Cymuned Trelech a Chyngor Cymuned Cwarter Bach	Mae ei gŵr yn aelod o Gyngor Cymuned Trelech
Glynog Davies	8.2 – Newid enwau Cyngor Cymuned Trelech a Chyngor Cymuned Cwarter Bach	Aelod o Gyngor Cymuned Cwarter Bach
H.A.L. Evans	8.5 – Cartrefi Croeso Ltd – Gofynion Ariannu, Penodi Cyfarwyddwyr a dirprwyo materion Cytundeb y Cyfranddalwyr	Ei chwaer yw Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Bro Myrddin
H.B. Shepardson	8.7 – Y Rhaglen Moderneiddio Addysg – Cynnig i ddarparu darpariaeth feithrin yn Ysgol Parc y Tywyn drwy gynyddu'r ystod oedran o 4-11 i 3-11	Personol – Un o lywodraethwyr yr ysgol
A Vaughan Owen	8.1 – Y Fersiwn Ddrafft o'r Canllawiau Cynllunio Atodol – Ynni Gwynt ac Ynni'r Haul – Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin	Mae'n gweithio yn y sector ynni
A Vaughan Owen	8.6 – Rhaglen Moderneiddio Addysg – Cynnig i gynyddu nifer lleoedd Ysgol Gymunedol Gors-las o 4-11 i 3-11	Aelod o Gyngor Cymuned Gors-las ac ynghlwm wrth werthu'r tir i'r Cyngor Sir
K. Madge	7.1 – Rhybudd o Gynnig a Gyflwynwyd gan y Cynghorydd K. Lloyd	Mae ei ferch yn gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol
J.D. James	8.7 – Y Rhaglen Moderneiddio Addysg – Cynnig i ddarparu darpariaeth feithrin yn Ysgol Parc y Tywyn drwy gynyddu'r ystod oedran o 4-11 i 3-11	Un o lywodraethwyr yr ysgol
A Fox	8.7 – Y Rhaglen Moderneiddio Addysg – Cynnig i ddarparu darpariaeth feithrin yn Ysgol Parc y Tywyn	Un o lywodraethwyr yr ysgol

	drwy gynyddu'r ystod oedran o 4-11 i 3-11	
D. Price	8.6 – Rhaglen Moderneiddio Addysg – Cynnig i gynyddu nifer lleoedd Ysgol Gymunedol Gors-las o 4-11 i 3-11	Aelod o Gyngor Cymuned Gors-las ac ynghlwm wrth werthu'r tir i'r Cyngor Sir
B. Jones	8.7 – Y Rhaglen Moderneiddio Addysg – Cynnig i ddarparu darpariaeth feithrin yn Ysgol Parc y Tywyn drwy gynyddu'r ystod oedran o 4-11 i 3-11	Mae ei mab yn athro ym Mharc y Tywyn
J. Morgan – Cyfarwyddwr yr Adran Cymunedau	8.5 – Cartrefi Croeso Ltd – Gofynion Ariannu, Penodi Cyfarwyddwyr a dirprwyo materion Cytundeb y Cyfranddalwyr	Un o Gyfarwyddwyr y Cwmni
W. Walters – y Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi	8.5 – Cartrefi Croeso Ltd – Gofynion Ariannu, Penodi Cyfarwyddwyr a dirprwyo materion Cytundeb y Cyfranddalwyr	Un o Gyfarwyddwyr y Cwmni

### 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Gynghorydd Alun Davies.

Cododd holl aelodau'r Cyngor i gofio'n dawel am y Cynghorydd Davies ac wedi hynny cafwyd teyrngedau gan y Cynghorwyr E. Dole, L.M. Stephens a K. Madge ar ran pob plaid wleidyddol.

Cydymdeimlwyd â'r cyn-Gynghorydd Sir, D. Williams, ar farwolaeth ei wraig.

Estynnwyd llongyfarchiadau i:-

- Meinir Lloyd o Gaerfyrddin (adnabyddir hi hefyd fel Meinir Hughes Griffiths) a fydd yn derbyn Medal T.H. Parry-Williams yn yr Eisteddfod Genedlaethol
- Y bobl ganlynol a fydd yn cael eu derbyn i Orsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol:
  - Elaine Edwards, Caerfyrddin – cyn-lywydd UCAC
  - Huw Edwards, Llangennech – Darlledwr
  - Margarette Hughes – Hendy-gwyn ar Daf – ei chyfraniad i'r Gymraeg a'r diwylliant
  - Eric Jones – Pencader – Stiward ac Arolygydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd er 1984
  - Dr Rhys Thomas – New Inn Llandeilo – cyfraniad i feddygaeth
  - Rosemary Williams – Crucywel – (o Llandeilo'n wreiddiol) – cyfraniad at y Gymraeg a'r diwylliant yn ardal y Fenni.
- Y bobl ganlynol sydd wedi cael cydnabyddiaeth Frenhinol:

- Yr MBE  
Dr Gareth Collier – Dryslwyn – Meddyg Ymgynghorol yr Anadl yn Ysbyty Glangwili am ei wasanaeth i drin canser yr ysgyfaint yng Nghymru;

Tracy Pike – Llanelli – Prif Weithredwr Cymdeithas Ieuencid a Phlant Sir Gaerfyrddin – Gwasanaeth i bobl ifanc (Llanelli);

Michael James Worthington Williams, Cenarth am ei wasanaeth i'r diwydiant moduro;

- Medal yr Ymerodraeth Brydeinig – BEM  
William Henry Gerwyn Jenkins, Llanelli am ei wasanaeth i'r Samariaid yn Abertawe

- Tafarn y Cottage ger Llandeilo ar ennill gwobr 'Tafarn y Flwyddyn' y Gynghrair Cefn Gwlad
- Ysgol Gymraeg Brynsierfel, sef yr ysgol Gymraeg gyntaf yn Sir Gaerfyrddin i gael Gwobr Arian y Siarter Iaith
- Staff yr Adran Gynllunio am ennill gwobr 'Rhagoriaeth wrth gynllunio ar gyfer yr Amgylchedd Naturiol' yng ngwobrau'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a hynny yn achos Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr – y Canllawiau Cynllunio Atodol a Phrosiect Britheg y Gors.
- Y Cynghorydd Ann Davies ar gael Gradd Meistr mewn Addysg ac ar gael ei phenodi'n ddarpar Gadeirydd Undeb Amaethwyr Cymru yn Sir Gaerfyrddin.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at nifer o ddigwyddiadau yr oedd wedi'u mynychu ers dechrau ar ei gyfnod yn y swydd, yn enwedig Ras Goffa Robert Hobbs yng Nghaerfyrddin a enillwyd gan Marcin Białobłocki o Wlad Pwyl.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol yn ei Wasanaeth Dinesig diweddar lle codwyd dros £1,000 i'w elusennau – Ambiwlans Awyr Cymru a Chymdeithas Alzheimer Cymru.

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth wybod i'r Cyngor am y cyhoeddiad diweddar y byddai Sir Gaerfyrddin yn cynnal *Grand Départ* ras feicio Taith Prydain OVO Energy 2018 a fydd yn dechrau ym Mharc Gwledig Pen-bre ac yn ymlwybro drwy Sir Gaerfyrddin ar ei ffordd i Gasnewydd. Cyfeiriodd at yr amrywiaeth o ddigwyddiadau a gynhelir i nodi'r digwyddiad ac anogodd bob cymuned, yn enwedig y rheiny y bydd y daith yn mynd trwyddynt, i nodi'r digwyddiad yn yr un modd ac i arddangos Sir Gaerfyrddin i'r gynulleidfa deledu fyd-eang.

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd wybod i'r Cyngor am yr anawsterau a gafwyd yn ddiweddar gyda'r pla o bryfed yn Ne Llanelli ac am darddiad tebygol y pla, sef safle ailgylchu metel yng nghyffiniau Seaside yn Ward Glanymôr. Disgrifiodd y camau a gymerwyd gan staff a phartneriaid y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r achos a rhoddodd wybod y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru, sef y corff sy'n gyfrifol am roi trwydded i'r safle, bellach yn cymryd cyfrifoldeb llawn am oruchwylio'r gwaith o drin a thynnu ymaith wastraff y safle ac am gymryd unrhyw gamau gorfodi, os oes angen. Cadarnhaodd fod perchnogion y cwmni wedi gweithredu i unioni'r anawsterau ac i ymdrechu i atal achos o'r fath yn y dyfodol.



**4. LLOFNODI YN GOFNODION CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:**

**4.1. 18FED EBRILL, 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Ebrill, 2018 yn gywir.

**4.2. 16EG MAI, 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Mai, 2018 yn gywir.

**5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd

**6. CWESTIYNAU GAN AELODAU:-**

**6.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB EVANS I'R CYNGHORYDD GLYNOG DAVIES - AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT**

Rhoddodd y Cynghorydd R. Evans wybod ei fod yn tynnu ei gwestiwn yn ôl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** nodi bod y cwestiwn wedi cael ei dynnu yn ôl.

**7. YSTRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-**

**7.1. CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD COUNCILLOR KEN LLOYD**

(NODER: Roedd y Cynghorydd K. Madge wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a pharhaodd yn y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei thrafod)

Ystyriodd y Cyngor y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Ken Lloyd:

“Yn unol ag Amcan Llesiant 10 y Cyngor

**‘Heneiddio’n Dda – Cefnogi’r nifer gynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw’u hurddas a’u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio’**

gofynnwn i'r Cyngor edrych ar y posibilrwydd o wneud Sir Gaerfyrddin yn sir sy'n cefnogi pobl â dementia yn debyg i raglen y Gymdeithas Alzheimer - Cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia. Rhwng bod poblogaeth fwyfwy hen yn y sir a bod pwyslais cynyddol ar ofal a thriniaeth yn y gymuned yn hytrach nag mewn ysbyty neu gartref gofal, mae mwy o bobl yn byw yn ein cymunedau yn Sir Gaerfyrddin â dementia; felly mae angen inni nodi beth yn union yw 'cefnogi pobl â dementia' a beth yw'r meysydd allweddol ar gyfer gweithredu wrth weithio tuag at Sir Gaerfyrddin sy'n cefnogi pobl â dementia.”

Eiliwyd y Cynnig.

Rhodddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei gefnogi.**

## **7.2. CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD GARETH JOHN**

Ystyriodd y Cyngor y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Gareth John:

“Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod o'r diwedd fod Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn methu ymdopi â'r heriau y mae'n eu hwynebu a bod ei sefyllfa bellach yn anghynladwy. Serch y bu cyllid ychwanegol gan y llywodraeth, mae'r gwasanaethau allweddol wedi mynd yn gynyddol fregus, sy'n bwrw amheuaeth ar ba mor ddiogel yw'r cleifion.

Byddai gofal cymunedol integredig yn ffordd effeithiol o leddfu llawer o'r pwysau ar ein hysbytai, ond er gwaetha'r consensws o blaid y newid hwn bu'r symud tuag ato yn rhwystredig o araf.

Nid yw strwythurau rheoli ar wahân yn cefnogi dull integredig o'r fath ac, fel y profwyd, ni all maes lechyd na'r awdurdodau lleol gyflawni'r newid sydd ei angen ar eu pen eu hunain.

Er mwyn gwireddu gofal integredig, rhaid cynyddu'r gallu yn sylweddol ym meysydd gofal sylfaenol, gofal cymunedol a gofal cymdeithasol, a rhaid iddynt weithio'n hwylus ar draws ffiniau. Byddai timau gofal iechyd sylfaenol a thimau iechyd y cyhoedd integredig, sy'n cynnwys ystod gynhwysfawr o weithwyr proffesiynol clinigol, anfeddygol a gofal cymdeithasol, mewn sefyllfa lawer gwell i fynd i'r afael â'r heriau a ddaw yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio na natur anghyson y trefniadau sefydliadol presennol.

Felly galwn ar Lywodraeth Cymru i greu gwasanaeth lechyd a Gofal Cymunedol a fyddai'n darparu ac yn rheoli model cymdeithasol integredig ar gyfer iechyd a gofal ledled ardal Hywel Dda.

Byddai'r gwasanaeth yn atebol yn ddemocrataidd i'r etholwyr drwy'r tri awdurdod lleol ac yn atebol i'r bwrdd iechyd a fyddai'n cadw'r cyfrifoldeb statudol am ei swyddogaethau a'i staff.”

Cynigiwyd y gwelliant canlynol i'r cynnig gan y Cynghorydd R. James ac fe'i heiliwyd:

“Dileu paragraffau 1 i 4 a rhoi'r canlynol yn eu lle:

Ar 26 Mawrth, pleidleisiodd y Bwrdd Gweithredol yn unfrydol dros drefniadau rhanbarthol newydd ar gyfer y cronfeydd ar y cyd a Chynllun Ardal Gorllewin Cymru 2018-23 i ddarparu gwasanaethau di-dor rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae nifer o heriau ynghlwm wrth ofal sylfaenol yng Ngorllewin Cymru, oherwydd mesurau cyni parhaus Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghyd â tharged mudo'r Prif Weinidog o ran gweithwyr medrus sy'n effeithio ar ein gallu i recriwtio, ac mae angen inni sicrhau bod byrddau iechyd yn y sefyllfa orau posibl i ymdrin â'r heriau hyn.

Ym mharagraff 5, dileu'r hyn sy'n dilyn 'Felly rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i' a rhoi'r canlynol yn ei le:

Cynnal adolygiad brys i asesu gallu pob bwrdd iechyd i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru”.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith roi cyngor cyfreithiol am y newid a rhoddodd wybod nad newid oedd hwn yn ei barn hi a'i fod, i bob diben, yn gynnis ynddo'i hun.

Ar ôl ystyried y cyngor, barnodd y Cadeirydd fod y gwelliant yn amhriodol ac nad oedd modd ei dderbyn.

Rhoddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau o blaid ac yn erbyn y Cynnig, ac ar ôl hynny

### **PENDERFYNODD y Cyngor gefnogi'r Cynnig.**

## **8. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-**

### **8.1. Y FERSIWN DRAFFT O'R CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL – YNNI GWYNT AC YNNI'R HAUL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN**

(NODER: Roedd y Cynghorwyr M.J.A Lewis ac A. Vaughan Owen wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gadawsant Siambr y Cyngor tra oedd y Cyngor yn ystyried yr eitem)

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 30 Ebrill, 2018 (gweler Cofnod 9) wedi ystyried adroddiad ar y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ynghylch Ynni Gwynt ac Ynni'r Haul a baratowyd i ategu ac ymhelaethu polisiâu a darpariaethau Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin cyn iddo gael ei fabwysiadu'n ffurfiol, gan adlewyrchu'r ymrwymiad a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu argymhellion canlynol y Bwrdd Gweithredol:**

**“ cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Canllawiau Cynllunio Atodol a nodir yn yr adroddiad yn destun ymgynghori cyhoeddus ffurfiol am chwe wythnos;**

**Cymeradwyo cyhoeddi'r Canllawiau o ran Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt ar Amwynder Gweledol a Thirwedd a'r Astudiaethau Sensitifrwydd a Chynhwysedd Tirwedd fel dogfennau ategol i'r Canllawiau Cynllunio Atodol a'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig sydd ar ddod;**

**awdurdodi'r Pennaeth Cynllunio i gywiro gwallau argraffu, gwallau cartograffig neu wallau gramadegol a gwneud diwygiadau er mwyn gwella'r cywirdeb a gwneud yr ystyr yn gliriach.”**

## **8.2. NEWID ENW CYNGOR CYMUNED TRE-LECH AC ENW SAESNEG CYNGOR CYMUNED CWARTER BACH**

(NODER: Roedd y Cynghorwyr G. Davies a M.J.A Lewis wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a bu iddynt barhau yn Siambr y Cyngor tra oedd y Cyngor yn ystyried yr eitem)

Rhodddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 30 Ebrill, 2018 (gweler Cofnod 10) wedi ystyried adroddiad ar geisiadau a gafwyd gan glerc Cod Cyngor Cymuned Cwarter Bach a Chyngor Cymuned Tre-lech i newid yr enwau i Gyngor Cymuned Cwarter Bach (yn y Saesneg) a Chyngor Cymuned Tre-lech a'r Betws.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Bwrdd Gweithredol i'r Cyngor**

**“ei fod yn cymeradwyo newid enwau Cyngor Cymuned Cwarter Bach (yn y Saesneg) o *Quarter Bach Community Council* i *Cwarter Bach Community Council* a Chyngor Cymuned Tre-lech i Gyngor Cymuned Tre-lech a'r Betws.”**

## **8.3. BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE**

Rhodddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin, 2018 (gweler Cofnod 6) wedi ystyried adroddiad ar sefydlu'n ffurfiol Gyd-bwyllgor Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a'r ffrydiau cyllido cysylltiedig.

Atgoffwyd y Cyngor ei fod eisoes, ar y cyd â thri awdurdod lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, a Sir Benfro, wedi llofnodi Cytundeb y Fargaen Ddinesig (Penawdau'r Telerau) - sy'n werth cyfanswm o £1.3bn - a oedd wedi'i lofnodi gan lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ar 20 Mawrth 2018. Wedi hynny roedd Bargaen Ddinesig Bae Abertawe wedi bod yn gweithredu ar ffurf gysgodol ac roedd yr adroddiad cyfredol yn nodi fframwaith cyfreithiol y Cyd-bwyllgor gan ymgorffori trefniadau llywodraethu a ffrydiau cyllido cysylltiedig i'r Cyngor eu cymeradwyo. Os byddai'r adroddiad yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor, nodwyd y byddai angen hefyd i'r tri awdurdod lleol arall ei gymeradwyo a hynny erbyn diwedd Gorffennaf 2018.

Wrth ystyried yr adroddiad, cyfeiriwyd at ran 5.0 ohono a oedd yn ymwneud ag aelodaeth y Cyd-bwyllgor, sef 12 aelod, tri o bob un o'r awdurdodau lleol sy'n rhan ohono. Gofynnwyd am sicrwydd – ac fe'i rhodddwyd – y byddai cynrychiolaeth Sir Gaerfyrddin ar y Cyd-bwyllgor yn wleidyddol gytbwys gydag un aelod o bob grŵp gwleidyddol.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu argymhellion canlynol y Bwrdd Gweithredol:**

**“Cymeradwyo sefydlu Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r trefniadaeth llywodraethu cysylltiedig;  
Cymeradwyo Cytundeb Drafft y Cyd-bwyllgor a dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, a fyddai'n ymgynghori â'r Arweinydd, i wneud newidiadau bychain ac angenrheidiol i'r Cytundeb, gyda sêl bendith yr awdurdodau partner a llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru, i gwblhau'r Cytundeb;  
Cymeradwyo sefydlu Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Bae Abertawe;  
Cymeradwyo'r cynnig bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyfrannu £50k y flwyddyn dros 5 mlynedd i dalu am gostau swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor, y Bwrdd Strategaeth Economaidd, Bwrdd y Rhaglen, y Cyd-bwyllgor Craffu, y Corff Atebol a'r Swyddfa Ranbarthol a chymeradwyo'r egwyddor bod rhagor o gyllid yn cael ei ddarparu sy'n cyfateb i frigidoriad o 1.5% o ddyraniad ariannol y Fargen Ddinesig. Dirprwyo'r gwaith o gytuno ar sylfaen y ddarpariaeth ariannu hon i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol gan ymgynghori â'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau;  
Awdurdodi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol (Swyddog Adran 151) i archwilio a gweithredu'r benthyciad cymesur mwyaf priodol i ariannu'r prosiectau rhanbarthol a gyflwynir yn ardal y Cyngor;  
Awdurdodi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i drafod â'i gyd-gyfarwyddwyr y dyraniad mwyaf priodol o ran cadw trethi annomestig rhanbarthol yn achos yr 11 prosiect.”**

### **8.4. FERSIWN DDRAFFT O STRATEGAETH GORFFORAETHOL NEWYDD 2018-23**

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin, 2018 (gweler Cofnod 7) wedi ystyried Strategaeth Gorfforaethol ddrafft newydd y Cyngor ar gyfer 2018-23. Os caiff ei fabwysiadu gan y Cyngor bydd yn cymryd lle'r Strategaeth bresennol a gyhoeddwyd yn 2015 a bydd yn cyfuno'r cynlluniau canlynol i un ddogfen:

- Strategaeth Gorfforaethol 2015-20;
- yr Amcanion Gwella, yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009;
- yr Amcanion Llesiant, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – nid oedd angen i'r rhain newid bob blwyddyn, na gorfod eu rhoi ar waith o fewn blwyddyn, ac roedd yn hollol gymwys gosod amcanion sy'n para mwy na blwyddyn;
- prosiectau a rhaglenni allweddol Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin am y 5 mlynedd nesaf, fel y nodir yn “Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf”.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu argymhellion canlynol y Bwrdd Gweithredol:-**

**“Cyflwyno Strategaeth Gorfforaethol newydd i gymryd lle'r Strategaeth Gorfforaethol bresennol a gyhoeddwyd yn 2015, er mwyn cynnwys yr Amcanion Llesiant a'r Amcanion Gwella ac ymgorffori'r prosiectau a'r rhaglenni allweddol a nodir yn Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf; Cadw'r un set o Amcanion Llesiant ar gyfer 2018/19 ynghyd ag amcan ychwanegol ynghylch Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau”.**

**8.5. CARTREFI CROESO CYF GOFYNION ARIANNU, PENODI CYFARWYDDWYR A DIRPRWYO CYTUNDEB CYFRANDDALIWR**

(NODER:

- Roedd y Cyngorydd H.A.L. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gadawodd Siambr y Cyngor tra oedd y Cyngor yn ystyried yr eitem)
- Roedd Jake Morgan y Cyfarwyddwr Cymunedau a Wendy Walters y Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gadawsant Siambr y Cyngor tra oedd y Cyngor yn ystyried yr eitem)

Rhodddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin, 2018 (gweler Cofnod 8), wedi ystyried adroddiad ar benderfyniad blaenorol y Cyngor i sefydlu Cartrefi Croeso Cyf, cwmni tai sy'n berchen yn llwyr i'r Cyngor, er mwyn adeiladu tai i'w gwerthu a'u gosod ac i ysgogi rhagor o weithgarwch adfywio. Yn unol â'r penderfyniad hwnnw gofynnwyd i'r Cyngor ystyried adroddiad am yr eitemau canlynol ynghylch rhedeg y cwmni:

- Gofynion ariannu'r cwmni – ymgorffori Cynllun Busnes 'lefel uchel' 2018-2023 y cwmni;
- Y broses ar gyfer penodi cyfarwyddwyr;
- Dirprwyo materion Cytundeb y Cyfranddalwyr.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu argymhellion canlynol y Bwrdd Gweithredol:-**

**Gofynion Ariannu:**

**Nodi Cynllun Busnes lefel uchel 2018 – 2023 y Cwmni, sydd wedi'i ddatblygu gan Adran Dai / Cyfarwyddiaeth Cymunedau y Cyngor, fydd yn cael ei fireinio yn dilyn astudiaethau dichonoldeb manwl y prosiect a'r ymchwiliadau safle;**

**Cytuno i dalu costau sefydlu'r Cwmni ar gyfer 2017/18 o'r cyllidebau referniw presennol, hyd at uchafswm o £100,000;**

**Cytuno ar Fenthyciad Costau Gweithredu i'r Cwmni mewn perthynas â'i gostau gweithredu yn 2018/19 hyd at uchafswm o £280,000. Bydd hyn yn cael ei drosglwyddo ymlaen llaw, yn chwarterol ac mewn cyfrannau o 25%;**

**Cytuno ar Fenthyciad Datblygu Prosiect pellach hyd at uchafswm o £750k, i'w ryddhau mewn cyfrannau y cytunir arnynt, er mwyn datblygu manylion busnes y cwmni i'r Cyngor eu hystyried ymhellach. Bydd y benthyciad hwn yn cael ei ddefnyddio i wneud cynnydd ar y canlynol:**

- **Gwerthusiadau datblygu pellach o wyth safle, gan gynnwys 2 brosiect gwledig. Bydd hyn yn cynnwys prisiad manwl, cymorth gwladwriaethol, cyngor cyfreithiol a chyngor ynghylch trethiant;**
- **Cynigion datblygu cynllun/ymchwiliadau safle cynhwysfawr a manwl ar gyfer tri safle, gan gynnwys un gwledig**
- **Modelau ariannol manwl a'r cyngor cysylltiedig ynghylch materion cyfreithiol a threthiant;**
- **Datblygu strategaeth gaffael effeithlon;**
- **Comisiynu gwerthusiadau technegol manwl ac arolygon cysylltiedig megis arolygon safle, pridd, trafniadaeth ac arolygon ecolegol;**
- **Cysylltu â chyfleustodau a chyrrff statudol;**
- **Comisiynu gwaith dylunio manwl a manylebau (a fydd hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer prosiectau dilynol);**
- **Derbyn Cyngor cyn cynllunio a chwblhau ymgynghoriad cyn cynllunio**

**Bydd swm cychwynnol o £250,000 o'r Benthyciad Datblygu Prosiect manwl ar gael i'r cwmni er mwyn symud ymlaen â'r prawf o gysyniad. Bydd y gwaith o gymeradwyo rhyddhau rhagor o gyllid (hyd at y terfyn bentyca) yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, ac fe gaiff ei ryddhau yn sgil arfarniad masnachol boddhaol o dri safle cychwynnol y prawf o gysyniad;**

**Nodwyd y bydd ceisiadau am fenthyciadau pellach ar gyfer gwariant ar ddatblygiadau mawr (er enghraifft, trosglwyddo tir, ffioedd proffesiynol, costau adeiladu) yn dod i law yn ôl yr angen a byddant yn rhan o'r cynllun busnes manwl a fydd yn cael ei gwblhau ar ôl i'r gwerthusiadau safle unigol gael eu cwblhau;**



Bydd y cyllid drwy fenthyciadau ar gael ar 3.5% yn uwch na'r gyfradd a bennir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar gyfer y Benthyciad Costau Gweithredu a 2.2% yn uwch na chyfradd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar gyfer y Benthyciad Datblygu Prosiect. Bydd elfennau terfynol y cytundeb benthyciad manwl yn cael eu dirprwyo i'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.

### Penodi Cyfarwyddwyr

Bod y penderfyniad i benodi a diswyddo Cyfarwyddwyr y Cwmni yn cael ei wneud gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, ac ar ran y Bwrdd Gweithredol;

Bod y Cyfarwyddwr Cymunedau (Jake Morgan), a'r Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi (Wendy Walters) yn cael eu penodi yn gyfarwyddwyr y cwmni;

Y cytunir ar broses ffurfiol i benodi'r Cyfarwyddwyr sy'n weddill.

### Dirprwyo materion yn ymwneud â'r Cytundeb Cyfranddaliwr.

Dirprwyo awdurdod (lle bo modd) i'r Prif Weithredwr, ar ôl ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, i weithredu ar ran y cyfranddaliwr mewn perthynas â'r Cytundeb Cyfranddaliwr”.

## **8.6. Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNNIG I GYNYDDU NIFER Y LLEOEDD YN YSGOL GYMUNEDOL GORSLAS O 110 I 210**

(NODER: Roedd y Cynghorwyr D. Price ac A. Vaughan Owen wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a bu iddynt barhau yn Siambr y Cyngor tra oedd y Cyngor yn ystyried yr eitem)

### HYD Y CYFARFOD

Am 1.00pm tynnwyd sylw'r Cyngor at Reol 9 o'r Weithdrefn Gorfforaethol - 'Hyd Cyfarfod' - ac at y ffaith bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr. Felly

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** fod Rheolau'r Weithdrefn Gorfforaethol yn cael eu rhoi o'r neilltu dros dro er mwyn gallu trafod yr eitemau oedd yn weddill ar yr agenda.

Rhodddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin, 2018 (gweler Cofnod 15) wedi ystyried adroddiad ar ganlyniad yr Ymgynghoriad Statudol a wnaed gan y Cyngor ar ei gynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gymunedol Gors-las o 110 i 210.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** fabwysiad argymhelliad canlynol y Bwrdd Gweithredol:-

“os bydd yn fodlon nad oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill; bod y cynnig statudol wedi bod yn destun ymgynghoriad ac wedi cael ei gyhoeddi yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion a'i fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol gan ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori, ac nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law mewn ymateb i'r



**Hysbysiad Statudol, y dylai'r Cyngor weithredu'r cynnig fel yr amlinellir yn yr Hysbysiad Statudol”.**

**8.7. Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG CYNNIG I DDARPARU DARPARIAETH FEITHRIN YN YSGOL PARC Y TYWYN DRWY GYNYDDU YR YSTOD OEDRAN O 4-11 I 3-11**

(NODER:

- Roedd y Cyngorydd B. Jones wedi datgan buddiant yn yr eitem hon a gadawodd Siambr y Cyngor tra oedd y Cyngor yn ystyried yr eitem
- Roedd y Cyngorwyr A. Fox, J.D James a H.B. Shepardson wedi datgan buddiant yn yr eitem hon a bu iddynt barhau yn Siambr y Cyngor tra oedd y Cyngor yn ystyried yr eitem)

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin, 2018 (gweler Cofnod 16) wedi ystyried adroddiad ar ganlyniad yr Ymgynghoriad Statudol a wnaed gan y Cyngor ar ei gynnig i ddarparu addysg feithrin yn Ysgol Parc y Tywyn drwy gynyddu ei hystod oedran o 4-11 i 3-11.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-**

**“os bydd yn fodlon nad oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill; bod y cynnig statudol wedi bod yn destun ymgynghoriad ac wedi cael ei gyhoeddi yn unol â'r Côt Trefniadaeth Ysgolion a'i fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol gan ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori, ac nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law mewn ymateb i'r Hysbysiad Statudol, y dylai'r Cyngor weithredu'r cynnig fel yr amlinellir yn yr Hysbysiad Statudol”.**

**8.8. FERSIWN DIWYGIEDIG O GYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN 2018 - 2033 CYTUNDEB CYFLAWNI DRAFFT**

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin, 2018 (gweler Cofnod 20) wedi ystyried adroddiad ar y Cytundeb Cyflawni Drafft a luniwyd mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor ar 4 Ionawr, 2018 i ddechrau'n ffurfiol ar y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig (newydd) yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus a ddaeth i ben ar 23 Mawrth, 2018. Nodwyd, os bydd y Cyngor yn cadarnhau'r Cytundeb Drafft, y byddai angen ei gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru er mwyn ei gymeradwyo. Yn amodol ar y gymeradwyaeth honno, byddai gan y Cyngor gyfnod o 3.5 mlynedd i weithredu'r Cynllun erbyn y terfyn amser o 2021.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu argymhellion canlynol y Bwrdd Gweithredol:**

**“Bod y sylwadau a ddaeth i law a'r argymhellion mewn perthynas â'r Cytundeb Cyflawni Drafft yn cael eu cadarnhau;  
Bod y newidiadau i'r amserlen yn cael eu cymeradwyo;  
Cymeradwyo cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni (yn cynnwys argymhellion yr adroddiad) i Lywodraeth Cymru gael cytuno arno;  
Nodi bod y cyfnod ymgynghori ar gyfer cyflwyno safleoedd ymgeisio wedi cael ei ymestyn i 29 Awst 2018”.**

**9. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWDYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-**

**9.1. 30AIN EBRILL, 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad y cyfarfod uchod.**

**9.2. 14EG MAI, 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad y cyfarfod uchod**

**10. NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R MATER CANLYNOL GAN EI FOD YN CYNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWDYD YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWDYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoeddadael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**11. ENWEBIAD AR GYFER RHYDDID ANRHYDEDDUS SIR GAERFYRDDIN**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 10 uchod, y byddai'r mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod am fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth sy'n datgelu enw unigolyn a enwebwyd ar gyfer Rhyddid y Sir. Er y byddai'r budd i'r cyhoedd fel rheol yn ffafrio tryloywder a diffuantrwydd, roedd y budd i'r cyhoedd o gadw cyfrinachedd yn drech yn yr achos hwn oherwydd ni fyddai'r sawl a enwebwyd yn gwybod ei fod wedi ei enwebu ac ni fyddai'n gymwys datgelu ei enw cyn cynnal pleidlais ar b'un ai i ddyfarnu Rhyddid y Sir iddo ai peidio.**

**Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad a oedd yn ymwneud â chais i gyflwyno Rhyddid Anrhydeddus y Sir.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y byddai Rhyddid y Sir yn cael ei gyflwyno i'r unigolyn y cyfeirir ato yn yr adroddiad ac y byddai seremoni dderbyn yn cael ei threfnu fel rhan o gyfarfod y Cyngor ar 11 Gorffennaf, 2018.**

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## Y CYNGOR SIR

11 GORFFENNAF 2018

## TAITH PRYDAIN 2018

**Y Pwrpas:**

Cyflwyniad i'r aelodau ar ras Taith Prydain sy'n cychwyn yn Sir Gaerfyrddin ar 2 Medi 2018.

**Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**

Er gwybodaeth a sylwadau.

**Y Rhesymau:**

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ynghylch y manteision a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad proffil uchel.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cynllun rheoli digwyddiadau i wneud y mwyaf o gyfleoedd hyrwyddo i'r Sir.

**Angen ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu perthnasol: Nac Oes**

Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad **Nac Oes**

Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad **Nac Oes – er gwybodaeth**

**YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:-**

Y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths (Deiliad y Portffolio Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth)

**Y Gyfarwyddiaeth:** Cymunedau

**Enw Pennaeth y  
Gwasanaeth/Awdur yr Adroddiad:**  
Ian Jones

**Swydd:**

Pennaeth Hamdden

**Rhif ffôn/ Cyfeiriad E-bost:**

01267 228309  
[IJones@sirgar.gov.uk](mailto:IJones@sirgar.gov.uk)

# EXECUTIVE SUMMARY COUNTY COUNCIL

11<sup>TH</sup> JULY, 2018

## TOUR OF BRITAIN 2018

### SUMMARY OF REPORT

Presentation on the 2018 Tour of Britain which is starting in Carmarthenshire on the 2<sup>nd</sup> September.

The presentation will explain more about the Tour of Britain Race, and the route of the first stage starting from Pembrey Country Park, onwards to Carmarthen, up the Tywi Valley and from Llandovery on to the end of the stage in Newport, Gwent.

The presentation will also summarise the benefits of staging the 'Grand Depart' (start) of the race, and what the County is doing to maximise the potential benefits from the event.

DETAILED REPORT ATTACHED?

NO – Members will receive a Presentation on the day

# IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

Signed: *Ian Jones*

Head of Leisure

Policy, Crime & Disorder & Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>NONE</b>	<b>YES</b>	<b>NONE</b>	<b>YES</b>

## 1. Policy, Crime & Disorder and Equalities

The event supports the Carmarthenshire Cycling strategy recently approved by members.  
*Gwyneth Ayres Corporate Policy and Partnership Manager.*

## 2. Legal

The event is underpinned by a legal agreement between the Tour of Britain event organisers and the County Council.

## 3. Finance

- There is a £20k cost to staging the event, with support funding provided by Welsh Government's Major Events unit.
- Additional marketing and promotional costs are covered from existing budget resources with anticipated financial benefits outlined in the presentation.

## 5. Risk Management Issues

The event management plan has been discussed in detail by the multi-agency Safety Advisory Group.

## 6. Physical Assets

Use of County Council Assets including Pembrey Country Park for the start of the stage, and the County's highway network

# CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below

Signed : *Ian Jones*

Head of Leisure

## Community / Town Council

Relevant T&C Councils where race passes through, were consulted on the 7<sup>th</sup> June 2018, and are listed in the presentation.

## Relevant Partners

Welsh Cycling

Welsh Government Major Events Team

## Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information

List of Background Papers used in the preparation of this report:

**THESE ARE DETAILED BELOW:-**

Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
Event agreement with Tour of Britain organisers	ToB01	Head of Leisure Office, 3 Spilman Street, Carmarthen



## Y CYNGOR SIR

11<sup>EG</sup> GORFFENAF 2018

## CYNLLUN RHEOLI ASED AU PRIFFYRDD

**YR ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**  
Cymeradwyo Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd 2018.

**Y Pwrpas:**

Mae'r Cynllun yn pennu'r amcanion a'r fframwaith polisi a strategaeth ar gyfer rheoli'r rhwydwaith priffyrdd, ac mae'n cydymffurfio ag argymhellion y *Côd Ymarfer newydd – Seilwaith Priffyrdd sy'n cael ei Reoli'n Dda*.

**Y Rhesymau:**

Mae polisi a fframwaith y Cynllun hwn yn pennu amcanion, polisiâu a strategaeth y Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau seilwaith priffyrdd ac mae'n cydnabod pwysigrwydd ei seilwaith priffyrdd o ran cefnogi amcanion corfforaethol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r Cynllun yn mabwysiadu dull seiliedig ar risg yn unol â'r Côd Ymarfer ac mae'n cydnabod yr adnoddau sydd ar gael a blaenoriaethu adnoddau i dargedu meysydd lle mae'r angen a'r budd ar eu mwyaf.

Angen ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu perthnasol	<b>NAC OES</b>
Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad	<b>OES - 2 Gorffennaf 2018</b>
Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad	<b>OES - 11 Gorffennaf 2018</b>

**YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:-**

Y Cyng. H.A.L. Evans – (Amgylchedd)

<b>Y Gyfarwyddiaeth:</b> Yr Amgylchedd	<b>Swydd:</b>	<b>Rhifau ffôn: / Cyfeiriadau E-bost:</b>
<b>Enw Pennaeth y Gwasanaeth:</b> Stephen Pilliner	Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd	01267 228150 <a href="mailto:sgpilliner@sirgar.gov.uk">sgpilliner@sirgar.gov.uk</a>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b> Richard Waters	Rheolwr Priffyrdd a Thrafnidiaeth	01267 228825 <a href="mailto:RWaters@sirgar.gov.uk">RWaters@sirgar.gov.uk</a>
Chris Nelson	Prif Beiriannydd – Rheoli Asedau a'r Rhwydwaith	01267 224538 <a href="mailto:cnelson@sirgar.gov.uk">cnelson@sirgar.gov.uk</a>

# EXECUTIVE SUMMARY

## COUNTY COUNCIL

2<sup>ND</sup> JULY 2018

### HIGHWAY ASSET MANAGEMENT PLAN (HAMP)

#### 1. BRIEF SUMMARY OF PURPOSE OF REPORT

The Highway Asset Management Plan 2018 (HAMP) complies with the new *Well-Managed Highway Infrastructure – A Code of Practice* for the management of the highway network. The HAMP sets out our objectives and strategy in managing the network and how these play a key role in supporting corporate, national, regional and local goals.

In line with the code of practice the HAMP sets out the adoption of a risk based approach to target our resources to areas where they are most needed and where our investment will derive greatest value. The HAMP explains how an evidence led methodology will be utilised in the management of our highway infrastructure. The HAMP will also facilitate the analysis and reporting of how the asset has been managed, its condition and how future investment will impact.

The HAMP consists of four key parts which set out the strategy and policy, a management framework, an annual statement of condition and investment all of which will guide the development of a maintenance manual for the various element comprising the highway asset. The HAMP will act as an overarching portfolio with respect to evolving individual strategies for elements of the asset, such as gully cleaning for example, and how they are to be maintained going forward.

Part 1 explains the supporting role of the highway network in the wider policy context. At the national level, this includes key legislation such as the Future Generations (Wales) Act 2015 and Active Travel (Wales) Act 2013. At regional level highway infrastructure the Joint Local Transport Plan for South West Wales (2015-2020) and the developing Swansea Bay City Region. Corporately the HAMP supports the objectives set out in the recent Corporate Strategy 2018-2023.

Part 2 sets out the overarching highway network policies which are in place, or will be developed, and our objectives adopted in managing the highway network. This includes areas such as our Network Hierarchy, Parking and Cycling strategies. Further strategies will develop as we move forward.

Part 3 provides a template for providing an annual report which will set out the condition of the asset, our progress over the last 12 months and our plans for the forthcoming 12 months. It will assist in informing decision making around future spending and priorities.

Part 4 will be developed as a Maintenance Manual which will set out the way we will manage and plan the individual elements which comprise our highway infrastructure asset. The maintenance manual will set out technical processes and procedures for day to day delivery of the highway maintenance service. As we adapt to changing demands, resources and technology and continuously implement best asset management practice, aspects of the plan will be updated. We will work closely with neighbours and other local authorities in a collaborative manner and with engagement through the County Surveyors Society (Wales) asset management project.

## 2. OTHER OPTIONS AVAILABLE AND THEIR PROS AND CONS

### Do nothing option

Should the authority decide not to develop its Highway Asset Management Plan we will not be in a position to demonstrate our approach to the new *Well-Managed Highway Infrastructure – a Code of Practice*. There is a deadline of October 2018 by which time all authorities are expected to have developed plans to adopt a risk based approach to maintenance and management of the highway asset. The authority may be more vulnerable to claims as a result and may lose out on funding opportunities.

It is a condition of recent Welsh Government funding that the authority has in place an effective Highway Asset Management plan and can demonstrate how its resources are targeted.

The authority is part of the County Surveyors Society's collaborative Highway Asset Management project. This enables us to work with our neighbours and similar authorities in developing a joint approach to Highway Asset Management and to support the potential for shared resources in the future. This updated HAMP will enable us to demonstrate how we are adopting initiatives from the all Wales approach.

### 3. Recommendation

That the Highway Asset Management Plan be approved.

DETAILED REPORT ATTACHED?	YES – Carmarthenshire Highway Asset Management Plan (Parts 1-3) 2018
---------------------------	---

## IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

Signed: **S. G. Pilliner** Head of Transportation and Highways

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
<b>YES</b>	<b>NONE</b>	<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>NONE</b>	<b>YES</b>

### Policy, Crime & Disorder and Equalities

The HAMP sets the policy for the prioritisation of the resources, it complies with the Well Managed Highways Code of Practice and meets the key goals of the Future Generations Act in taking a long term view of needs, acting proactively to prevent problems occurring, supporting well-being objectives, working collaboratively with partners and involving all stakeholders.

### Finance

## ARGYMHELLION Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD:

bod yr Awdurdod yn dechrau mabwysiadu system cyfathrebu ddi-bapur gyda'r holl Gynghorwyr, a fydd ar waith o 1 Ionawr 2019, a bod rhaglen hyfforddiant briodol yn cael ei threfnu cyn y dyddiad hwn.

## Y Rhesymau:

Cymeradwyodd y Cyngor rybudd o gynnig yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2015 a chytunwyd i symud i system ddi-bapur o gyfathrebu â'r holl Gynghorwyr, cyn gynted ag y bo modd.

Mae system rheoli pwyllgorau ar waith sy'n galluogi'r Awdurdod i gynnal cyfarfodydd yn electronig ac mae'r Uned Gwasanaethau Democritaidd, fel rhan o'r adolygiad Trawsnewid i Wneud Cynnydd wedi nodi bod gweithio'n ddi-bapur yn ffordd o sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu	Amherthnasol
Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad	NAC OES
Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad	OES (11 <sup>eg</sup> Gorffennaf 2018)

## YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO –

Y. Cyng. Emlyn Dole (Arweinydd)

## Y Gyfarwyddiaeth

Enw Pennaeth y  
Gwasanaeth:  
Linda Rees-Jones

Swyddi:  
Pennaeth Gweinyddiaeth a'r  
Gyfraith

Rhifau ffôn 01267 224028  
Cyfeiriadau e-bost:

Awdur yr Adroddiad:  
Gaynor Morgan

Pennaeth y Gwasanaethau  
Democritaidd

GMorgan@sirgar.gov.uk

**EXECUTIVE SUMMARY**  
**DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE**  
**11<sup>TH</sup> JUNE 2018**

**DISCUSSION PAPER ON PAPERLESS WORKING**

The Council at its meeting held on the 14<sup>th</sup> January 2015 (Minute 7.2 refers) considered and supported the following notice of motion submitted by Councillor E.Dole:-

*“In light of the financial crisis facing local Government and the proposed budget efficiencies required – this Council believes that there is a need to identify savings wherever they can be achieved. This Council therefore proposes that all Councillors should accept their responsibility in contributing towards efficiency savings and therefore move as soon as possible to a paperless system of communication with all Councillors”.*

As part of a Transform, Innovate and Change review of the Democratic Services function, the Democratic Services Committee is being asked to consider whether it is now appropriate for the Authority to move towards a paperless system of communication with all Councillors.

A discussion paper is attached.

<b>DETAILED REPORT ATTACHED ?</b>	<b>YES</b>
-----------------------------------	------------

# IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

Signed: Linda Rees Jones, Head of Administration & Law

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
NONE	YES	YES	NONE	NONE	NONE	YES

## Legal

The Local Government Act 1972 specifies that

“a summons to attend the meeting, specifying the business to be transacted thereat, and signed by the proper officer of the Council, shall, subject to sub-paragraph (3) below, be left at or sent by post to the usual place of residence of every member of the Council”

The Authority will need to consider all legal implications prior to a final decisions being made.

## FINANCE

Funding will need to be identified for any electrical works required to install charging facilities within meeting rooms, this is required in order to move towards digital delivery of the democratic process.

## ICT

The relevant Committee management software and IT kit were procured in 2015. No additional costs are envisaged at this stage.

## PHYSICAL ASSETS

Electrical works will be required to install appropriate charging facilities within meeting rooms.

# CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below

Signed: Linda Rees Jones, Head of Administration & Law

**1.Scrutiny Committee**

Not applicable

**2.Local Member(s)**

Not applicable

**3.Community / Town Council**

Not applicable

**4.Relevant Partners**

Not applicable

**5.Staff Side Representatives and other Organisations**

Not applicable

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information  
List of Background Papers used in the preparation of this report:**

Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
The Local Government Act 1972		<a href="https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1972/70/contents">https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1972/70/contents</a>
Council Meeting – 14 <sup>th</sup> January 2015 (Minute 7.2)		<a href="http://online.carmarthenshire.gov.uk/agendas/eng/COCO20150114/MINUTES.HTM">http://online.carmarthenshire.gov.uk/agendas/eng/COCO20150114/MINUTES.HTM</a>

# PAPERLESS SYSTEM OF COMMUNICATION FOR DEMOCRATIC SERVICES PROVISION

## DISCUSSION PAPER

### WHERE ARE WE?

The Council at its meeting held on the 14<sup>th</sup> January 2015 (Minute 7.2 refers) considered and supported the following notice of motion submitted by Councillor E.Dole:-

*“In light of the financial crisis facing local Government and the proposed budget efficiencies required – this Council believes that there is a need to identify savings wherever they can be achieved. This Council therefore proposes that all Councillors should accept their responsibility in contributing towards efficiency savings and therefore move as soon as possible to a paperless system of communication with all Councillors”.*

As a result of this decision, the Council purchased iPads for all elected members/senior officers together with Modern.gov software a committee management system which is used to create and publish agendas, reports and minutes of the Council’s Committees. The system also allows users to download via an app committees of interest and will then automatically keep itself updated with all the latest meeting papers including the full agenda pack. The Apps allow users to highlight sections of the pack and make annotations just as you would with a paper copy. The first agenda using Modern.gov was published in September 2015.

It is acknowledged that there have been some teething problems in terms of the use of electronic equipment and a decision to move to paperless working has been delayed in order for those issues to be resolved. Officers are also mindful of the need to upgrade the meeting rooms so that adequate charging facilities are available.

To date 4 Members have chosen not to have paper copies.

**SPEND TO DATE ON PAPERLESS WORKING** (following Council decision on the 14<sup>th</sup> January 2015 and based on roll out in July 2015 to Councillors & Chief Officers):-

KIT	INITIAL COSTS	ONGOING COSTS
Hardware (change of kit required to provide access to the mod.gov app.) and data sim	£37,596.35	Data sim £9 per kit. (£9x 74 £666 per month) IT equipment will be updated as necessary in accordance with IRWP determinations for member support.
Software – Mod.gov	£28,510	£11,010.00

## APPROXIMATE ADDITIONAL SPEND REQUIRED:-

<b>Supply and installation of 44no twin 13A socket outlets, each complete with 2no USB ports, one twin socket to be located between a pair of members seating locations.</b>	<b>£5278.90 (minimum cost)*</b>
*Chamber County Hall only – additional spend required if Spilman Street and Llanelli Town Hall are to be included	

It is acknowledged that the Authority will need to make changes to some of its meeting rooms in order to move towards digital delivery. It is considered that the Authority will need to install power sockets for use by members during meetings to ensure sufficient power for their devices. Initial costs for this provision comes in at £5278.90. The quotation price does not include an allowance for builders works associated with lifting of existing carpets and floorboards around the chamber, to allow access under the suspended floor to run cables, and replacing same after new circuits have been installed.

The Committee table in the Committee Room, County Hall has been installed with charging points thus the meeting room is fit for digital delivery.

## POTENTIAL AVERAGE ANNUAL SAVING (Based on April 2016-March 2017 figures – does not include staff costs)

<b>Postage Costs</b>	<b>£4,525.34</b>
<b>Printing Costs</b>	<b>£7953.37</b>
The above figure is based on the current re-charge to the Democratic Budget following efficiencies already achieved through the Konika printer rationalisation project.	
There is further potential to deliver savings by reducing the number of print machines in the Print Room at County Hall,	
It is anticipated that further savings in terms of productivity and environmental factors can also be achieved.	

## LEGAL CONSIDERATIONS:-

The Local Government Act 1972 specifies that

“a summons to attend the meeting, specifying the business to be transacted thereat, and signed by the proper officer of the Council, shall, subject to sub-paragraph (3) below, be left at or sent by post to the usual place of residence of every member of the Council”

Both the All Wales Monitoring Officer Group and the Heads of Democratic Network have raised with Frank Cuthbert - Head of Local Government Democracy - Welsh Assembly Government the need for legislation to be updated to keep up with modern technology/ readily accessible information via electronic means. The Local Government (Electronic Communications) (England) Order 2015 has amended the Local Government Act 1972 to allow a summons to be sent to members by an appropriate method however this does not apply in Wales.

However, sub-paragraph (3) of the Local Government Act (1972) states that:

“If a member of a principal council gives notice in writing to the proper officer of the council that he desires summonses to attend meetings of the council to be sent to him at some address specified in the notice other than his place of residence, any summons addressed to him and left at or sent by post to that address shall be deemed sufficient service of the summons”

This allows Members to specify an alternative address and in some other local authorities across Wales Members have used this clause to specify that their usual place of residence is the Members Room/Lounge. This has allowed for the summons to be hand-delivered and/or displayed at the County Hall rather than being sent by post to their home address.

Under the current law this would be optional and according to the preference of the individual Member.

## WHERE DO WE GO FROM HERE?

The Carmarthenshire Democratic Process could move to a paperless system of working immediately, as the team have been operating the software since September 2015.

Options for consideration:-

Option 1	No change
Option 2	Proceed with the installation of charging points in the Council Chamber at a cost of approx.£6k. – 7k. Encourage more members to ‘opt out’ of paper copy agendas in order to deliver an element of saving.
Option 3	Proceed with the installation of charging points (as per option 2).  Recommend via the Democratic Process, that the Authority moves towards paperless communication with councillors (including all committee documentation) and to identify an implementation date .



Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Dydd Llun, 4 Mehefin 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**

C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, D.M. Jenkins, P. Hughes-Griffiths, L.M. Stephens and J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorwyr: J.M. Charles, D.M. Cundy, R. James, M.J.A. Lewis and J.G. Prosser

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

M. James, Prif Weithredwr  
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau  
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol  
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant  
W. Walters, Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi  
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith  
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)  
R. Staines, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel  
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth  
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel Dros Dro  
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata  
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio  
H. Morgan, Rheolwr Datblygu Economaidd  
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr  
S. Charles, Rheolwr Strategaeth a Seilwaith Trafnidiaeth  
C. Jones, Pen-Swyddog Caffael  
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

**Siambr, Neuadd y Sir - 9.30 - 11.18 am**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Y Cyngorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
H.A.L. Evans	8 - Cartrefi Croeso Ltd - Gofynion Ariannu, Penodi Cyfarwyddwyr a Dirprwyo Cytundeb Cyfranddaliwr	Ei chwaer yw Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Bro Myrddin
H.A.L. Evans	17 - Strategaeth Digartrefedd	Ei chwaer yw Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Bro Myrddin
P.M. Hughes	18 - Diwygiad i Bolisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat	Landlord yn y sector preifat

### 3. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

### 4. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

### 5. COFNODION

#### 5.1. 5ED CHWEFROR, 2018

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2018 yn gofnod cywir.

#### 5.2. 30AIN EBRILL, 2018;

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2018 yn gofnod cywir.

#### 5.3. 14EG MAI, 2018.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 14 Mai 2018 yn gofnod cywir.

### 6. BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWAWE

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch sefydlu Cyd-bwyllgor Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a'r ffrydiau cyllido cysylltiedig yn ffurfiol.

Atgoffwyd y Bwrdd Gweithredol fod y Cyngor, ynghyd â'r tri awdurdod lleol sef Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro, wedi cytuno i lofnodi Cytundeb Bargaen Ddinesig (Penawdau Telerau) werth cyfanswm o £1.3 biliwn, a oedd wedi'i lofnodi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ar 20 Mawrth 2017. Ar ôl hynny, roedd Bargaen Ddinesig Bae Abertawe wedi bod yn gweithredu ar ffurf gysgodol i gadw'r momentwm a datblygu'r trefniadau llywodraethu er mwyn galluogi i'r rhanbarth gyflawni'r rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys llunio'r Cyddgytundeb i ddarparu'r fframwaith cyfreithiol y byddai Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn cydymffurfio ag ef.

Nododd y Bwrdd Gweithredol fod trafodaethau hefyd wedi'u cynnal â Llywodraeth Cymru, lle cytunwyd ar y canlynol fel rhan o drefniadau gweithredu'r Fargaen Ddinesig:-

- Byddai awdurdodau lleol y Fargaen Ddinesig yn gallu cadw 50% o elw net ychwanegol yr ardrethi annomestig a gynhyrchir gan y 11 prosiect a fydd yn cael eu cyflawni fel rhan o'r fargaen;

- Byddai awdurdodau lleol Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn gallu defnyddio hyblygrwydd o ran cyllid mewn perthynas â gwariant y prosiect ar sail referniw, fel y manylwyd yn y Cydgytundeb.

Nododd y Bwrdd Gweithredol y byddai angen i'r adroddiad gael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor ar 13 Mehefin 2013, os yw'n cael ei gymeradwyo, a chan dri awdurdod lleol arall Bargaen Ddinesig Bae Abertawe erbyn diwedd mis Gorffennaf 2018.

Cyfeiriwyd at rôl y Cyngor fel awdurdod arweiniol y Fargaen Ddinesig, a mynegodd Aelodau'r Bwrdd eu gwerthfawrogiad i holl Swyddogion y Cyngor am eu hymrwymiad a'u hymroddiad wrth arwain prosiect y fargaen ddinesig dros y ddwy flwyddyn ddiweddfaf.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

- 6.1 Gymeradwyo'r gwaith o sefydlu Cyd-bwyllgor Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a'r strwythur llywodraethu cysylltiedig;
- 6.2 Bod Cytundeb Cyd-bwyllgor Drafft yn cael ei gymeradwyo a bod y Prif Weithredwr, gan ymgynghori â'r Arweinydd, yn cael yr awdurdod dirprwyedig i wneud mân newidiadau i'r Cytundeb fel y bo angen ac fel y cytunwyd arnynt gan yr awdurdodau partner, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru er mwyn cwblhau'r Cytundeb;
- 6.3 Cymeradwyo sefydliad Cyd-bwyllgor Craffu Bargaen Ddinesig Bae Abertawe;
- 6.4 Cymeradwyo'r cynnig bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyfrannu £50k fesul blwyddyn dros 5 blynedd er mwyn talu rhan o gostau gweithredu'r Cyd-bwyllgor, y Bwrdd Strategaeth Economaidd, Bwrdd y Rhaglen, y Cyd-bwyllgor Craffu, y Corff Atebol a swyddogaethau'r Swyddfa Ranbarthol ac yn cymeradwyo'r egwyddor y darperir cyllid pellach yn gyfateb i frigidoriad 1.5% o ddyraniad cyllid y Fargaen Ddinesig, a bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, gan ymgynghori â'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, yn cytuno ar ddarpariaeth y cyllid hwn;
- 6.5 Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol (Swyddog Adran 151) yn cael ei awdurdodi i archwilio a gweithredu'r dull mwyaf priodol o fenthyca cymesur er mwyn cyllido prosiectau rhanbarthol a gyflawnir mewn ardaloedd sy'n perthyn i'r Cyngor;
- 6.6 Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn cael ei awdurdodi i gyd-drafod â Chyd-gyfarwyddwyr ynghylch y sail dyrannu mwyaf priodol ar gyfer cadw ardrethi annomestig rhanbarthol mewn perthynas â'r 11 prosiect.

**7. FERSIWN DDRAFFT O STRATEGAETH GORFFORAETHOL NEWYDD 2018-23**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Fersiwn Ddrafft o Strategaeth Gorfforaethol Newydd 2018-23. Os caiff ei mabwysiadu, byddai'n cymryd lle'r strategaeth bresennol a gyhoeddwyd yn 2015, yn ogystal â chyfuno'r cynlluniau canlynol i un ddogfen:-

- Strategaeth Gorfforaethol 2015-20;

- yr Amcanion Gwella, yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009;
- yr Amcanion Llesiant yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - nid oedd angen newid y rhain bob blwyddyn, na'u cyflawni o fewn blwyddyn ac roedd nodi amcanion sy'n parhau am fwy nag un flwyddyn yn hollol gyfreithlon;
- Prosiectau a rhaglenni allweddol Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin a Rhaglenni am y 5 mlynedd nesaf, fel y nodir yn "Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin dros y pum mlynedd nesaf".

Nododd y Bwrdd Gweithredol fod Fersiwn Ddrafft y Strategaeth wedi bod yn destun ymgynghoriad â Phwyllgorau Craffu'r Cyngor a bod nifer o newidiadau ac eglurhad wedi'u gwneud ar ôl hynny er mwyn adlewyrchu barn y Pwyllgorau hynny.

#### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:**

- 7.1 Cyflwyno Strategaeth Gorfforaethol newydd i ddisodli'r Strategaeth Gorfforaethol bresennol a gyhoeddwyd yn 2015, er mwyn cynnwys yr Amcanion Llesiant a'r Amcanion Gwella a chan gwmpasu'r prosiectau a'r rhaglenni allweddol a nodir yn "Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin dros y pum mlynedd nesaf";**
- 7.2 Cadw'r un set o Amcanion Llesiant ar gyfer 2018/19 ynghyd ag amcan ychwanegol ar Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau.**

### **8. CARTREFI CROESO CYF - GOFYNION ARIANNU, PENODI CYFARWYDDWYR A DIRPRWYO CYTUNDEB CYFRANDDALIWR**

(NODER: Roedd y Cynghorydd H.A.L. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, a gadawodd Siambr y Cyngor yn ystod y trafodaethau)

Atgoffwyd y Bwrdd Gweithredol ei fod, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2017, wedi cytuno i sefydlu cwmni tai cyngor ym mherchnogaeth lwyr y Cyngor er mwyn adeiladu tai i'w gwerthu a'u rhentu a bod yn gatalydd ar gyfer gweithgareddau adfywio pellach. Yn unol â'r penderfyniad hwnnw, bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a fanylodd ar y canlynol:

- Gofynion ariannu'r cwmni - gan gynnwys Cynllun Busnes lefel uchel 2018-2023 y cwmni;
- Y broses ar gyfer penodi cyfarwyddwyr;
- Dirprwyo Cytundeb Cyfranddaliwr.

Cyfeiriodd y Cynghorydd D. Cundy, yn unol â Rheol 11 o Weithdrefn y Cyngor, at benodiad a rôl cyfarwyddwyr y cwmni, a gofynodd sut y byddai'r Cyngor, fel yr unig gyfranddaliwr, yn mesur llwyddiant y cwmni o ran ansawdd, maint, cyllid a phrydlondeb, a sut y byddai Cynghorwyr Sir yn gallu cael gwybod am y ffactorau hynny, er enghraifft drwy Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol, Pwyllgor Craffu - Cymunedau, neu drwy ddull arall.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau y byddai gan y cwmni bum cyfarwyddwr, sef dau Swyddog Cyngor (heb dâl), un Cynghorydd Sir (heb dâl) a dau allanol (gyda thâl) i'w penodi gan y Prif Weithredwr, yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt a chan ymgynghori ag Arweinydd y Cyngor.

Byddai llwyddiant y cwmni yn cael ei fesur a'i fonitro gan ddefnyddio'r Cynllun Busnes, a allai fod angen ei adolygu maes o law. Byddai Swyddog Adran 151 y Cyngor yn gyfrifol am fonitro hynny a sicrhau bod buddiannau'r Cyngor yn cael eu cynnal.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai Cynllun Busnes y cwmni yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau bob blwyddyn. Hefyd ni welai unrhyw reswm pam na ddylai'r cwmni lunio adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:**

### **Gofynion Ariannu**

- 8.1 Nodi Cynllun Busnes lefel uchel 2018 – 2023 y Cwmni, sydd wedi'i ddatblygu gan Adran Dai / Cyfarwyddiaeth Cymunedau y Cyngor, a fydd yn cael ei fireinio yn dilyn astudiaethau dichonoldeb manwl y prosiect a'r ymchwiliadau safle;**
- 8.2 Cytuno ar y costau i sefydlu'r Cwmni yn 2017/18 o'r cyllidebau referniw presennol at uchafswm o £100,000;**
- 8.3 Cytuno ar Fenthyciad Costau Gweithredu i'r Cwmni mewn perthynas â'i gostau gweithredu yn 2018/19 hyd at uchafswm o £280,000. Bydd hyn yn cael ei drosglwyddo ymlaen llaw, yn chwarterol ac mewn cyfrannau o 25%;**
- 8.4 Cytuno ar Fenthyciad Datblygu Prosiect pellach hyd at uchafswm o £750,000, i'w ryddhau mewn cyfrannau y cytunwyd arnynt er mwyn datblygu manylion busnes y cwmni i'r Cyngor eu hystyried ymhellach. Bydd y benthyciad hwn yn cael ei ddefnyddio i wneud cynnydd ar y canlynol:**
  - **Gwerthusiad datblygu pellach o wyth safle, gan gynnwys 2 brosiect gwledig. Bydd hyn yn cynnwys prisiad manwl, cymorth gwladwriaethol, cyngor cyfreithiol a chyngor ynghylch trethiant;**
  - **Ymchwiliadau safle / cynigion datblygu cynllun cynhwysfawr a manwl ar gyfer tri safle, gan gynnwys un gwledig, gan gynnwys:**
  - **Cwblhau modelau ariannol manwl a sicrhau'r cyngor cysylltiedig ynghylch materion cyfreithiol a threthiant.**
  - **Datblygu strategaeth gaffael effeithiol.**
  - **Comisiynu gwerthusiadau technegol manwl ac arolygon cysylltiedig megis arolygon safle, pridd, trafniadaeth ac arolygon ecolegol.**
  - **Cysylltu â chyfleustodau a chyrrff statudol.**
  - **Comisiynu briff dylunio manwl a datganiad manyleb (a fydd hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer y prosiectau canlynol).**
  - **Derbyn cyngor cyn cynllunio a chwblhau ymgynghoriad cyn cynllunio;**

- 8.5 Bydd swm cychwynnol o £250,000 o'r Benthyciad Datblygu Prosiect manwl ar gael i'r cwmni er mwyn symud ymlaen â'r prawf o gysyniad. Bydd cymeradwyo rhyddhau rhagor o gyllid (hyd at y terfyn benthycia) yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, a gaiff ei ryddhau yn sgil cael arfarniad masnachol boddhaol o'r tri safle prawf o gysyniad cychwynnol;
- 8.6 Nodwyd y bydd ceisiadau am fenthyciadau pellach ar gyfer gwariant ar ddatblygiadau mawr (er enghraifft, trosglwyddo tir, ffioedd proffesiynol, costau adeiladu) yn dod i law yn ôl yr angen a byddant yn ffurfio rhan o'r cynllun busnes manwl a fydd yn cael ei gwblhau ar ôl i'r gwerthusiadau safle unigol gael eu cwblhau;
- 8.7 Bydd y cyllid drwy fenthyciadau ar gael ar 3.5% yn uwch na'r gyfradd a bennir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar gyfer y Benthyciad Costau Gweithredu a 2.2% yn uwch na chyfradd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar gyfer y Benthyciad Datblygu Prosiect. Bydd yr elfennau terfynol ynghylch y cytundeb benthyciad manwl yn cael eu dirprwyo i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;

#### Penodi Cyfarwyddwyr

- 8.8 Bod y penderfyniad i benodi a diswyddo Cyfarwyddwyr y Cwmni yn cael ei wneud gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, ac ar ran y Bwrdd Gweithredol;
- 8.9 Bod y Cyfarwyddwr Cymunedau (Jake Morgan), a'r Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi (Wendy Walters) yn cael eu penodi yn gyfarwyddwyr y cwmni;
- 8.10 Y cytunir ar broses ffurfiol i benodi'r Cyfarwyddwyr sy'n weddill Dirprwyo materion yn ymwneud â'r Cytundeb Cyfranddaliwr.
- 8.11 Dirprwyo awdurdod (lle bo modd) i'r Prif Weithredwr, ar ôl ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, i weithredu ar ran y cyfranddaliwr mewn perthynas â'r Cytundeb Cyfranddaliwr.

## 9. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad monitro'r gyllideb refeniw a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sefyllfa'r gyllideb fel yr oedd ar 28 Chwefror 2018.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn rhagweld y byddai tanwariant diwedd blwyddyn o £1,421k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod ac y byddai gorwariant o £220k ar lefel adrannol. Roedd y Cyfrif Refeniw Tai yn rhagweld tanwariant diwedd blwyddyn o £57k.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad monitro'r gyllideb.**

## 10. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2017-18

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ynghylch gwariant y Rhaglen Gyfalaf mewn perthynas â chyllideb 2017/18, fel yr oedd ar 28 Chwefror 2018. Byddai'r arian llithriad yn y flwyddyn o £-10, 843k yn cael ei gynnwys yn rhaglen y blynyddoedd i ddod.



**PENDERFYNWYD YN UNFRUDOL** dderbyn adroddiad monitro'r gyllideb a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen gyfalaf, fel y manylir yn Atodiad A a B.

## **11. CYFRADDAU BUSNES – CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI'R STRYD FAWR 2018/19**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch cynigion i fabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19, sydd â'r nod o ddarparu cymorth i fanwerthwyr y stryd fawr megis siopau, tafarnau a bwytai y mae eu hardrethi wedi cynyddu o ganlyniad i'r gwaith ailbrisio a wnaed gan y Swyddfa Brisio yn 2017. Nodwyd bod y cynllun yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ac y byddai'n darparu £170k o ryddhad i oddeutu 600 o fusnesau yn y Sir.

Gan mai mesur dros dro oedd y cynllun, dywedwyd nad oedd Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol ond byddai'n caniatáu i awdurdodau bilio roi rhyddhad o dan y pwerau rhyddhad yn ôl disgrisiwn sydd ar gael o dan Adran 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Yn unol â hynny, byddai angen i'r Cyngor fabwysiadu'r cynllun yn ffurfiol.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

- 11.1 fod y Cyngor yn mabwysiadu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr ar gyfer 2018/19 yn ffurfiol;**
- 11.2 bod rhyddhad yn cael ei roi, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;**
- 11.3 bod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau yn penderfynu ynghylch unrhyw geisiadau nad ydynt o fewn cwmpas penodol y canllawiau neu y bydd angen rhoi ystyriaeth benodol iddynt.**

## **12. STRATEGAETH CAFFAEL 2018-2022 CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y Strategaeth Gaffael arfaethedig ar gyfer 2018-2022, a oedd â'r nod o gael fframwaith ar waith er mwyn sicrhau bod gan benderfyniadau comisiynu a chaffael rôl allweddol o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Gorfforaethol a Chynllun Llesiant y Cyngor. Amlinellodd y Strategaeth flaenoriaethau o ran sut y byddai'r broses gaffael yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nodau hynny, a dyma'r blaenoriaethau allweddol:-

- Gwario arian yn effeithiol;
- Gweithredu prosesau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio;
- Cynnal a datblygu'r economi leol;
- Cefnogi cyd-weithio.

Cyfeiriodd y Cyngorydd D. Cundy, yn unol â Rheol 11 o Weithdrefn y Cyngor, at ddefnydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a gofynodd a yw hwnnw'n orfodol.

Rhoddyd sicrwydd i'r aelodaeth gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau nad yw'n orfodol a bod y Cyngor wedi eithrio o'r Gwasanaeth sawl gwaith o'r blaen er mwyn cefnogi busnesau lleol yn Sir Gaerfyrddin, lle bo'n bosibl.



**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu Strategaeth Caffael Cyngor Sir Caerfyrddin 2018-2022.**

**13. CÔD YMARFER LLWYODRAETH CYMRU – CYFLOGAETH FOESEGOL MEWN CADWYNI CYFLENWI**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch mabwysiadu Côt Ymarfer Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Chyflogaeth Foesebol mewn Cadwyn Gyflenwi y disgwylir i bawb sy'n derbyn cyllid y sector cyhoeddus gydymffurfio ag ef.

Nodwyd bod y Côt yn trafod chwe phwnc allweddol, gan gynnwys 12 argymhelliad, sy'n amrywio o arferion anghyfreithlon ac anfoesebol i arferion da ac arferion gorau. Yn ogystal, os caiff ei fabwysiadu, disgwylir y byddai'r Cyngor hefyd yn penodi Hyrwyddwr Gwrth-gaethwasiaeth a Chyflogaeth Foesebol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**13.1 fod y Cyngor yn ymrwmo'n ffurfiol i Gôt Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyn Gyflenwi ac yn cytuno i gydymffurfio â'r 12 ymrwymiad sydd â'r nod o gael gwared ar gaethwasiaeth a chefnogi arferion moesebol o ran cyflogaeth.**

**13.2 fod y Cynghorydd D. Jenkins, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, yn cael ei benodi fel Hyrwyddwr Gwrth-gaethwasiaeth a Chyflogaeth Foesebol y Cyngor.**

**14. GRANT GWISG YSGOL**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch cynigion i'r Awdurdod sefydlu cynllun er mwyn darparu cymorth ariannol i deuluoedd difreintiedig tuag at gost Gwisg Ysgol newydd wrth symud i ysgolion uwchradd, fel y nodir yn Atodiad 1, yn lle'r cynllun blaenorol a gyllidir gan Lywodraeth Cymru sydd wedi dod i ben fel rhan o gyllideb 2018/19.

**PENDERFYNWYD YN UNRYDOL sefydlu cynllun lleol ar gyfer helpu teuluoedd difreintiedig â chost gwisg ysgol, wrth symud i ysgolion uwchradd, a hynny ar ôl i Grant Gwisg Ysgol Llywodraeth Cymru ddod i ben.**

**15. Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNNIG I GYNYDDU NIFER Y LLEOEDD YN YSGOL GYMUNEDOL GORSLAS O 110 I 210**

Yn unol â chofnod 6 ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2017, bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch canlyniad yr Ymgynghoriad Statudol a gynhaliwyd ynghylch cynigion i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Gymunedol Gors-las o 110 i 210. Nodwyd bod y cynnig wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai 2018.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR, os bydd yn fodlon nad oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill; bod y cynnig statudol wedi bod yn destun ymgynghoriad ac wedi cael ei gyhoeddi yn unol â Chôt Trefniadaeth Ysgolion a'i fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol gan ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori, ac nad oedd**

unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law mewn ymateb i'r Hysbysiad Statudol, y dylai'r Cyngor wireddu'r cynnig fel yr amlinellir yn yr Hysbysiad Statudol.

## 16. Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG CYNNIG I DDARPARU DARPARIAETH FEITHRIN YN YSGOL PARC Y TYWYN DRWY GYNYDDU YR YSTOD OEDRAN O 4-11 I 3-11

Yn unol â chofnod 7 ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2017, bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch canlyniad yr Ymgynghoriad Statudol a gynhaliwyd ynghylch cynigion i ddarparu addysg feithrin yn Ysgol Parc y Tywyn drwy gynyddu ei hystod oedran o 4-11 i 3-11. Nodwyd bod y cynnig wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai 2018.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR, os bydd yn fodlon nad oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill; bod y cynnig statudol wedi bod yn destun ymgynghoriad ac wedi cael ei gyhoeddi yn unol â Chôd Trefniadaeth Ysgolion a'i fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol gan ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori, ac nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law mewn ymateb i'r Hysbysiad Statudol, y dylai'r Cyngor wireddu'r cynnig fel yr amlinellir yn yr Hysbysiad Statudol.**

## 17. STRATEGAETH DIGARTREFEDD

(NODER: Roedd y Cynghorydd H.A.L. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ond arhosodd yn y cyfarfod gan gymryd rhan yn y penderfyniad)

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch datblygu Strategaeth Digartrefedd yn unol â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014 a roddodd dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd. Amlinellodd yr adroddiad y dull a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod hyd yn hyn a'r 5 maes allweddol isod i fynd i'r afael â hwy cyn mabwysiadu'r Strategaeth yn ffurfiol erbyn y dyddiad cau ym mis Rhagfyr 2018:-

- Adolygiad o'r data a'r wybodaeth;
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- Datblygiad y Strategaeth a Datganiad o Egwyddorion;
- Datblygu'r Cynlluniau Gweithredu Lleol;
- Ymgynghoriad Cyhoeddus Ffurfiol ynghylch y Strategaeth Ddrafft a'r Cynllun Gweithredu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd D. Cundy, yn unol â Rheol 11 o Weithdrefn y Cyngor, at y mater o'r rhai sy'n cysgu ar soffas ffrindiau neu yn yr awyr agored, a gofynnodd a fyddai'n bosibl gofyn iddynt pam yr oeddent yn ddigartref a beth allai'r Awdurdod ei wneud i'w helpu cyn iddynt fod mewn sefyllfa anodd iawn.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai fod y berthynas rhwng yr adran a'r bobl ddigartref yn bwysig a bod sesiynau 1:1 yn cael eu cynnal gyda chleientiaid fel rhan o'r broses o adeiladu eu hyder a'u hymddiriedaeth er mwyn eu cynorthwyo i newid eu sefyllfa. Er bod casglu gwybodaeth yn rhan bwysig o

wasanaeth allgymorth y Cyngor, mae'n rhaid derbyn na fyddai rhai pobl yn hoffi rhannu gwybodaeth bersonol.

O ran cwestiwn ynghylch lefel yr ymgynghoriad a gynhelir, cadarnhawyd y gallai'r awdurdod gysylltu ag undebau ffermio. Yn ogystal, byddai unrhyw berson/sefydliad yn cael ei groesawu i ymateb i'r ymgynghoriad.

#### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**17.1 gymeradwyo'r dull a'r cynllun ymgynghori;**

**17.2 Cadarnhau bwriad y Cyngor i ddatblygu cyfleoedd i weithio ar sail ranbarthol.**

### **18. NEWID I'R POLISI ADNEWYDDU TAI Y SECTOR PREIFAT**

(NODER: Roedd y Cynghorydd P.M. Hughes wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gadawodd y Siambr yn ystod y trafodaethau)

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried newid i Bolisi Adnewyddu Tai Sector Preifat y Cyngor sy'n adlewyrchu newidiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'w gynllun Benthyciad Gwella Cartrefi a'i gynllun Troi Tai'n Gartref. Fel rhan o'r cynnig hynny, byddai'r Awdurdod yn derbyn £1.25m i gefnogi pob math o gymorth ariannol er mwyn i berchnogion tŷ gynnal a chadw eu cartrefi.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu meini prawf diwygiedig cynllun Benthyciad Gwella Cartrefi a chynllun Troi Tai'n Gartref Llywodraeth Cymru a diwygio Polisi Adnewyddu Tai Sector Preifat y Cyngor er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hynny.**

### **19. CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL TAI Fforddiadwy - DIWEDDARIAD CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ar ddiweddariad i Ganllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy'r Cyngor - Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin. Nodwyd mai bwriad y diweddariad oedd rhoi rhagor o eglurdeb am ddehongli a gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig. Byddai hyn hefyd yn cynorthwyo gyda dealltwriaeth a defnyddioldeb y Canllawiau Cynllunio Atodol.

Yn unol â Rheol 11 o Weithdrefn y Cyngor, gofynnodd y Cynghorydd D. Cundy am eglurhad ynghylch diffiniad y term 'Tai Fforddiadwy' ac am bwy a oedd yn gyfrifol am bennu eu cost; y datblygwr neu'r Cyngor.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, y Dirprwy Arweinydd, at baragraff 2.2 ar dudalen 439 yr adroddiad, a amlinellai'r diffiniad o Dai Fforddiadwy fel y manylwyd arno yn Nodyn Cyngor Technegol 2 Llywodraeth Cymru - Cynllunio a Thai Fforddiadwy 2006. Roedd hynny'n cynnwys diffiniad o Dai Cymdeithasol ar Rent a Thai Canolradd lle roedd prisiau neu rhenti'n uwch na'r rheiny ar gyfer tai cymdeithasol ar rent ond islaw prisiau a rhenti tai ar y farchnad a oedd yn cynnwys modelau perchentyaeth cost isel megis ecwiti a rennir neu gynlluniau prynu â chymorth. O ran pennu pris tai fforddiadwy ac unrhyw swm cyfnewid i'w dalu, gwneir hynny drwy gyd-drafod â datblygwyr yn unol â gofynion polisi, a nodwyd yn y CDLI.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

- 19.1 gymeradwyo'r diweddariad i'r Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy;**
- 19.2 dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cynllunio gywiro gwallau argraffu, gwallau cartograffig neu wallau gramadegol a gwneud diwygiadau er mwyn gwella'r cywirdeb a gwneud yr ystyr yn gliriach cyn eu cyhoeddi;**

## **20. FERSIWN DIWYGIEDIG O GYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN 2018 - 2033 CYTUNDEB CYFLAWNI DRAFFT**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Cytundeb Cyflawni Drafft mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor ar 10 Ionawr 2018 i ddechrau'n ffurfiol ar y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) diwygiedig (newydd) yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus a ddaeth i ben ar 23 Mawrth. Nodwyd y byddai angen ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo, yn amodol ar fod y Cyngor yn cadarnhau'r Cytundeb Drafft.

Nododd y Bwrdd Gweithredol y byddai'r amserlen ar gyfer ceisiadau am gynnwys safleoedd ymgeisio'n cael ei estyn o ddiwedd mis Mai i 29 Awst 2018, o ganlyniad i lythyr am baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a'u hamserlenni, a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2018 gan Lesley Griffiths A.C., Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

- 20.1 nodi'r sylwadau a chadarnhau'r argymhellion a ddaeth i law o ran y Cytundeb Cyflawni Drafft.**
- 20.2 cymeradwyo'r newidiadau i'r amserlen.**
- 20.3 cymeradwyo cyflwyniad y Cytundeb Cyflawni (sy'n cynnwys argymhellion yr adroddiad) i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi gytuno arno**
- 20.4 Nodi'r estyniad i'r cyfnod ymgynghori ar gyfer cyflwyno safleoedd ymgeisio i 29 Awst 2018.**

## **21. STRATEGAETH FEICIO SIR GAERFYRDDIN**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Strategaeth Feicio Sir Gaerfyrddin a oedd â'r nod o sicrhau bod gan y cyngor gyfeiriad strategol clir sy'n cefnogi ei uchelgeisiau i fod yn arweinydd cenedlaethol o ran darparu digwyddiadau a datblygiadau seilwaith beicio, gan gyfrannu at ddyhead y Cyngor i fod yn ganolbwynt beicio Cymru a hefyd bodloni nifer o amcanion a nodir yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, Strategaeth Feicio Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cyfeiriwyd at y datganiad yn yr adroddiad bod 54% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin dros bwysau neu'n ordew yn ôl CDLI Sir Gaerfyrddin. Rhoddwyd eglurdeb ynghylch y datganiad yn yr adroddiad gan ymgynghorwyr sy'n gweithio ar y CDLI, prif ffynhonell y wybodaeth hon oedd Carmarthenshire Heart - Cit Offer Gordewdra lechyd Cyhoeddus Cymru. Cadarnhaodd y byddai'r Strategaeth yn cael ei diwygio i adlewyrchu'r brif ffynhonnell honno.

Cyfeiriodd y Cyngorydd D. Cundy, yn unol â Rheol 11 o Weithdrefn y Cyngor, at yr agwedd gymdeithasol ar lwybrau beicio a'r angen i baratoi mapiau lleol i roi

gwybod i'r cyhoedd am ffyrdd priodol o gael mynediad at siopau a lleoliadau cymdeithasol eraill ac ati drwy lonydd cefn ac a fyddai'n bosibl llunio mapiau o'r math.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd fod Map Teithio Llesol y Cyngor ar gael ar ei wefan; mae'n cynnwys 17 map o ardaloedd lleol sy'n manylu ar lwybrau cerdded a beicio fel ei gilydd. Yn ogystal, drwy ddefnyddio cyfleuster 'Lleol-i' ar y wefan, gall y cyhoedd gael mynediad i wybodaeth am lwybrau cyhoeddus yn eu hardal leol.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu Strategaeth Feicio Sir Gaerfyrddin.**

### **22. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

### **23. CANOLFAN ALWADAU RHYDAMAN/SWYDDFEYDD PARC AMANWY**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 22 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch Swyddfeydd Parc Amanwy y Cyngor ac adeilad yr hen ganolfan alwadau yn Rhydaman.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion yn yr adroddiad.**

### **24. GWERTHU TIR YN: DE-DDWYRAIN LLANELLI A CHANOL TREF LLANELLI**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 22 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch cynigion mewn perthynas â gwerthiant tir yn ne-ddwyrain Llanelli a chanol tref Llanelli.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhellion yn yr adroddiad.**

---

CADEIRYDD

---

DYDDIAD

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol